Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 28 Tachwedd 2024 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 4 RHAGFYR 2024** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024 (copi ynghlwm).

**5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2025** (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu (copi ynghlwm).

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 578447** (Tudalennau 15 - 32)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â chais gan Ymgeisydd Rhif 578447 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Bobby Feeley (Cadeirydd)

Joan Butterfield
Ellie Chard
Gwyneth Ellis
Alan James
Brian Jones

Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Delyth Jones
Paul Keddie
James May
Andrea Tomlin

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

---

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 11 Medi 2024 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley (Cadeirydd), Hugh Irving (Is-gadeirydd), Alan James, Delyth Jones a Paul Keddie

## HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Cyfreithiol (NF), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES), Swyddogion Gorfodi - Trwyddedu (NS a KB), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweddarlledwr])

## CROESO

Cyflwynodd y Cadeirydd Mr Nashwan Fazlani a'i groesawu i'r cyfarfod fel Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Trwyddedu.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Brian Jones, ac Andrea Tomlin

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni nodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024/25

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad i'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25.

Yr oedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi deiliaid trwyddedau yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi. Roedd y rhaglen waith wedi'i drafftio gan ystyried polisïau perthnasol a dyddiadau adolygu, ynghyd ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol posibl a gynigiwyd.

Roedd nifer o eitemau ar y rhaglen waith wedi cael eu haildrefnu neu eu dileu a chafodd rhaglen waith ddiwygiedig ei chyflwyno i'w hystyried.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau hynny a gafodd eu haildrefnu / a gafodd eu dileu a oedd yn ymwneud â –

- Tariff Cerbydau Hacni - yn eu cyfarfod diwethaf, roedd yr aelodau wedi cytuno i gadw'r ffioedd presennol ac adolygu'r sefyllfa mewn 12 mis (Mehefin 2025)
- Gweithdrefnau Arbennig - ni chafwyd diweddariad pellach ar yr eitem hon
- Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn - symudwyd yr eitem hon i fis Mawrth 2025 fel bod aelodau'n gallu ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o ofynion trwyddedu.

Nododd yr aelodau'r diwygiadau arfaethedig i'r rhaglen waith.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *nodi cynnwys yr adroddiad, a*

*(b)* *chymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25 fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**6 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 507343**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â'r canlynol –

(i) pa mor addas oedd Gyrrwr Rhif 507343 i feddu ar drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn euogfarnau a gafwyd ym mis Gorffennaf 2024 am fod yn berchen ar gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio fel cerbyd hurio preifat heb drwydded a defnyddio cerbyd ar ffordd neu mewn lle cyhoeddus heb yswiriant trydydd parti;

(ii) penderfyniad swyddogion i atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;

(iii) gwybodaeth gefndir a dogfennau cysylltiedig a ddarparwyd yn cynnwys manylion crynodeb o'r achos a'r ddirwy/pwyntiau cosb a gafwyd ynghyd â datganiadau ysgrifenedig gan y Gyrrwr yn cynnwys datganiad ategol a geirdaon ar sail cymeriad;

(iv) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau ac addasrwydd yr ymgeiswyr a thrwyddedau; a

(v) gwahoddwyd y Gyrrwr i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'r drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau wedi hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (NS) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cyfeiriodd y Gyrrwr at ei ddatganiad ysgrifenedig oedd yn rhan o'r adroddiad a dangosodd edifeirwch mawr am ei weithredoedd, tynnodd sylw at ei ymddygiad da yn flaenorol a rhoddodd sicrwydd am ei ymddygiad yn y dyfodol a'r gwersi a ddysgodd. Wrth ymateb i gwestiynau, ymhelaethodd y Gyrrwr am amgylchiadau'r euogfarnau a'r rhesymau am ei weithredoedd, gan gydnabod canlyniadau'r gweithredoedd hynny a'i benderfyniadau gwael, a chyfeiriodd at y camau yr oedd wedi eu cymryd ers hynny i sicrhau ail gerbyd trwyddedig os bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

O ran datganiad terfynol, cadarnhaodd y Gyrrwr nad oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu.

Gohiriwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a –

***PENDERFYNWYD*** *bod Gyrrwr Rhif 507343 yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat a bod rhybudd ysgrifenedig yn cael ei roi mewn cysylltiad â'r euogfarnau a gafodd.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried y dystiolaeth yn ofalus wrth wneud eu penderfyniad. Er nad oedd posib i'r Pwyllgor ailedrych ar ddarganfyddiadau'r euogfarn, roedd yn bosib iddynt ystyried yr amgylchiadau cyffredinol y tu ôl iddi wrth ystyried a oedd y Gyrrwr yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded yrru a/neu unrhyw gamau ffurfiol i'w cymryd.

Yn unol â chanllawiau polisi perthnasol ac oherwydd bod diogelwch y cyhoedd yn ystyriaeth hollbwysig i awdurdod trwyddedu o ran trwyddedau gyrwyr, roedd yr aelodau'n cymryd yr euogfarn o ddifri gan ei bod yn ymwneud ag yswiriant cerbyd. Roedd yr aelodau'n hynod o bryderus am y mater hwn, gan nodi bod y Gyrrwr wedi gwneud penderfyniadau gwael iawn. Roeddent yn ystyried nad oedd ei ymddygiad yn cyrraedd y safon uchel oedd yn ofynnol gan yrwyr trwyddedig.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr aelodau wedi rhoi llawer o bwysau ar hanes blaenorol y Gyrrwr, oedd yn rhagorol. Roedd yn galonogol bod y Gyrrwr wedi cydweithredu'n llawn â'r Awdurdodau Trwyddedu oedd yn rhan o'r achos. Cawsant eu calonogi hefyd gan gyfaddefiad llawn a didwyll y Gyrrwr i'r Swyddogion Trwyddedu a rhoddwyd pwysau mawr ar hynny wrth wneud eu penderfyniad bod y Gyrrwr yn parhau yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded.

Cafodd yr aelodau eu calonogi hefyd gan y ffaith bod y Gyrrwr wedi cymryd camau ers yr euogfarn i sicrhau ail gerbyd trwyddedig y gellid ei ddefnyddio pe bai'r Gyrrwr yn yr un sefyllfa eto. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r camau adferol a gymerwyd.

Wedi ystyried yr amgylchiadau i gyd, er bod yr aelodau'n ystyried bod y Gyrrwr yn parhau yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded, roeddent hefyd yn ystyried bod cam gweithredu ffurfiol sef rhybudd ysgrifenedig yn briodol oherwydd bod yr euogfarn a gafwyd yn ymwneud ag yswiriant. Byddai'r rhybudd ysgrifenedig yn parhau ar ffeil yr Awdurdod Trwyddedu

Felly, cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor eu cyfleu i'r Gyrrwr.

## 7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 577925

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais a dderbyniwyd am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 577925;

(ii) penderfyniad swyddogion i atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;

(iii) roedd yr Ymgeisydd wedi cael euogfarn ym mis Tachwedd 2011 am gynllwynio/cynhyrchu cyffur rheoledig canabis Dosbarth B, ynghyd ag euogfarnau moduro a gafwyd rhwng Gorffennaf 2021 a Rhagfyr 2022 am oryrru (mae ganddo chwe phwynt cosb dilys ar ei drwydded yrru DVLA ar hyn o bryd);

(iv) darparwyd gwybodaeth gefndir a dogfennau cysylltiedig yn ymwneud â'r achos yn cynnwys manylion yr euogfarnau a gafwyd ac eglurhad yr Ymgeisydd o'r digwyddiadau, datganiad personol a geirda o ran cymeriad gan ei gyflogwr presennol;

(v) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau ac addasrwydd yr ymgeiswyr a thrwyddedau; a

(vi) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol i gefnogi ei gais.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (NS) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ei ddatganiad ysgrifenedig oedd yn rhan o'r adroddiad a darllenodd ddatganiad ysgrifenedig a baratowyd ymlaen llaw i gefnogi ei gais. Rhoddodd rywfaint o gyd-destun i'r euogfarnau a gafwyd, a'i amgylchiadau personol yn cynnwys hanes ei yrfa hyd yma a'i rinweddau personol, gyda'r bwriad o ddangos ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded.

Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau am ei gyflogaeth ar hyn o bryd, oedd hefyd yn ymwneud â chludo teithwyr yn ogystal â gwaith gyrru arall a wnaed, y cymhelliad y tu ôl i'w gais a manylion pellach am ei euogfarnau, mesurau lliniaru, adferiad ac ymddygiad a chymeriad da wedi hynny.

Ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau hefyd, gan gadarnhau y byddai'r euogfarn a gafwyd ym mis Tachwedd 2011 wedi'i disbyddu erbyn Tachwedd 2024. Os oedd yr aelodau o blaid caniatáu'r cais, byddai'n amodol ar gwblhau'r prawf gwybodaeth a gwiriadau arferol yn foddhaol.

O ran datganiad terfynol, cadarnhaodd y Gyrrwr nad oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu.

Gohiriwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a –

***PENDERFYNWYD*** *bod Ymgeisydd Rhif 577925 yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat a bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar gwblhau'r holl wiriadau arferol sy'n gysylltiedig â'r math yma o gais yn llwyddiannus, a chwblhau'r Prawf Gwybodaeth i'r safon ofynnol.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried y dystiolaeth yn ofalus ac wedi trafod yn fanwl cyn gwneud eu penderfyniad yn y pen draw.

Ystyriodd y Pwyllgor bod yr Ymgeisydd wedi ei gael yn euog am drosedd ddifrifol yn ymwneud â chyffuriau, a rhoddwyd cryn bwysau i'r euogfarn honno gan mai nod cyffredinol yr awdurdod trwyddedu wrth wneud ei waith yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr oedd gwarchod y cyhoedd. Ystyriodd hefyd bod hwn yn fater difrifol yn unol â'u canllawiau polisi'n ymwneud â throseddau'n gysylltiedig â chyffuriau.

Ystyriodd yr aelodau'r canllawiau polisi oedd yn nodi na ddylid rhoi trwydded am 10 mlynedd wedi i'r ddedfryd am drosedd yn ymwneud â chyffuriau ddod i ben. Fodd bynnag, penderfynodd yr aelodau wyro oddi wrth y canllawiau hyn oherwydd nad oes llawer o amser nes bydd y 10 mlynedd wedi mynd heibio. Ystyriodd yr aelodau bod llawer o amser wedi mynd heibio ers yr euogfarn a'r ddedfryd a bod yr Ymgeisydd wedi cymryd camau i'w adsefydlu ei hun, a chawsant eu calonogi nad oedd wedi cyflawni troseddau tebyg ers hynny.

Cafodd yr aelodau eu calonogi hefyd bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y gwasanaeth prawf a'i fod ers hynny wedi gwneud swyddi oedd yn gofyn

am ymddiriedaeth a chyfrifoldeb. Felly, ystyrid nad oedd yr Ymgeisydd yn debygol o droseddu yn yr un ffordd eto a rhoddwyd pwysau i'r ffactorau hyn wrth benderfynu bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Mynegodd y pwyllgor bryder am y troseddau goryrru ar wahân a ddigwyddodd mewn cyfnod byr. Nododd yr aelodau eu bod yn cael eu hystyried yn rhai llai difrifol efallai ond roedd y patrwm ymddygiad yn peri pryder.

Er bod y Pwyllgor yn bryderus am y tair trosedd goryrru a'r effaith fyddai hynny'n ei chael ar safon gyrru'r Ymgeisydd, ystyriwyd y dystiolaeth a roddwyd yn y geirda gan gyflogwr presennol yr Ymgeisydd, ac nad oedd unrhyw rybuddion am oryrru. Rhoddwyd cryn bwysau i'r agwedd hon, er y rhoddwyd pwysau hefyd i'r geirda yn gyffredinol gan y pwyllgor wrth benderfynu bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu at Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Yn gyffredinol, ystyriodd y Pwyllgor bod cymeriad yr Ymgeisydd a'r holl amgylchiadau yn ddigon i fod yn drech na'u pryderon wrth benderfynu bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu at Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Felly, cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am.

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Waith 2024**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **Mawrth 2025** | Ceisiadau i ystyried Trwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd neu adolygu trwyddedau presennol sydd angen gwyro oddi wrth y polisi |
| | Ceisiadau i ystyried trwyddedau Eiddo/Ymarferwyr Gweithdrefnau Arbennig | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd fydd angen penderfyniad y pwyllgor |
| **Mehefin 2025** | Arolygu Tariff Cerbydau Hacni | Adolygu'r prisiau presennol yn defnyddio'r cyfrifydd methodoleg |
| | Gofynion trwyddedu cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad |
| | Ceisiadau i ystyried Trwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd neu adolygu trwyddedau presennol sydd angen gwyro oddi wrth y polisi |
| | Ceisiadau i ystyried trwyddedau Eiddo/Ymarferwyr Gweithdrefnau Arbennig | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd fydd angen penderfyniad y pwyllgor |
| **Medi 2025** | Arolygu Tariff Cerbydau Hacni | I'r Aelodau ystyried unrhyw argymhellion o'r cyfarfod blaenorol |
| | Ceisiadau i ystyried Trwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd neu adolygu trwyddedau presennol sydd angen gwyro oddi wrth y polisi |
| | Ceisiadau i ystyried trwyddedau Eiddo/Ymarferwyr Gweithdrefnau Arbennig | I'r Aelodau ystyried unrhyw geisiadau newydd fydd angen penderfyniad y pwyllgor |
| SYLWER – mae'n bosibl y bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn newid yn sgil materion brys yn ystod y flwyddyn. | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag